

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai  
ar nos Iau 12 Ebrill, 2018 am 1900**

## **1. PRESENNOL:**

### **Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Megan Tomos  
Y Cynghorydd Myfanwy Jones  
Y Cynghorydd Geraint Hughes  
Y Cynghorydd Margaret Fernley

### **Ward Llanllechid Uchaf**

Y Cynghorydd Jên Morris  
Y Cynghorydd Dafydd Jones

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dafydd Jones.**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Wyn Bowen Harris, Evan Jones, Kevin Williams a Alun Thomas.

## **3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2018.

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Arriva-** Y Cyngor yn anhapus gyda'r broses ymgynghori. Y Cyng. Megan Tomos wedi ysgrifennu at y Cyng. Dafydd Meurig a Paul Rowlinson, ac hefyd at Sian Gwenllian a Hywel Williams AS. Y Cyng. Megan Tomos yn siomedig nad oedd yr un ymateb wedi dod.

**Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'**- Cyngor Gwynedd wedi cyfarfod ar y safle gyda'r Cyng. Geraint Hughes a Alun Thomas, lle derbyniwyd bod cyflwr y palmant yn warthus. Cytunodd Cyngor Gwynedd i drin y safle yn yr wythnosau nesaf. Siom nad yw'r gwaith wedi ei ddechrau. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd beth yw'r oedi.

**Eglwys Llan-** y llwybr cyhoeddus ger yr eglwys wedi dirywio. Cyngor Gwynedd wedi ymateb eu bod yn cydweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a gobeithio bydd y llwybr yn cael sylw yn ystod yr haf.

**System atal-llifogydd** -cais wedi ei wneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am holl gostau'r system. Cafwyd ymateb mai £1,063,000 oedd y costau ar hyn o bryd, ond

nid yw'r gwaith wedi ei orffen. Penderfynwyd holi am ffigyrau mwy manwl, o dan penawdau cyllid.

**Sêl wyna-** penderfynwyd anfon nodyn atgoffa drwy lythyr wedi ei gofnodi. Yr anfoneb dal yn ddyledus.

**Cae chwarae Tal y Bont-** angen gofyn wrth Partneriaeth Ogwen i hel syniadau ar gyfer hybu defnydd o'r cae chwarae. Ymateb wedi dod gan y Rheolwr Prosiect yn holi os oes digwyddiad cymunedol sy'n digwydd yn barod fel cyfle i ymgynghori. Penderfynwyd trio trefnu cyfarfod cyhoeddus tua diwedd mis Mai i hel syniadau gyda'r gymuned.

**Partneriaeth Tirwedd y Carneddau-** adroddwyd bod Lois Mai Jones yn awyddus cael sgwrs gyda'n bugail ar gyfer y prosiect.

**Tyllau yn y ffordd-** adroddwyd bod twll arall wedi ymddangos ar Lôn Ddŵr, ac bod y Lôn ger Bronydd dal angen ei lanhau.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Neuadd Talgai (Ionawr)	£25.00
Neuadd Talgai (Chwefror)	£25.00
Neuadd Talgai (Mawrth)	£25.00
Partneriaeth Ogwen	£2256.52

## 6. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd-** e-bost gan Rheolwr Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru, Llanberis ynglŷn a cais cynllunio ar gyfer ailddatblygu'r ganolfan. Unigolion i ddanfon unrhyw sylwadau cyn gynted a phosib.

**Cyflwynwyd-** llythyr gan Rheolwr Llyfrgelloedd Gwynedd ynglŷn a bwriad Partneriaeth Ogwen i gymryd perchnogaeth drwy brydles o llyfrgell Bethesda. Y Clerc i wirio penderfyniad y Cyngor o'r flwyddyn diwethaf.

**Cyflwynwyd-** llythyr gan Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn a'r Cynllun Datblygu Lleol adolygedig Eryri 2016-2031. Y Cyng. Megan Tomos a Margaret Fernley wedi mynd a'r dogfennau i'w darllen ymhellach.

## 7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Y Cyng. Jên Morris wedi cyfarfod gyda swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod safle biniau Tan y Garth. Datrysiad dros dro wedi ei dderbyn, ond mae dal angen edrych ar y sefyllfa presennol a rhoi slab concriid o dan y biniau gan eu bod yn chwythu i bob man ar hyn o bryd.

## 8. Plac Coffa yn Aber Ogwen

Y Cyng. Geraint Hughes wedi bod yn trafod gyda Mr Pritchard, Fferm Glan y Môr am leoliad addas i'r plac ac mae Mr Pritchard yn fodlon trafod gyda'r elusen yn uniongyrchol. Penderfynwyd bydd y Clerc yn anfon manylion cyswllt Mr Pritchard at yr elusen.

### **9. Bwrlwm Haf Dyffryn Ogwen**

Adroddwyd am y digwyddiad sy'n digwydd 7fed Gorffennaf ar dir Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd y Cyngor yn hapus i gefnogi a hysbysebu'r digwyddiad.

### **10. Penderfyniadau Cynllunio:**

**C18/0081/21/LL**

78 Bro Emrys, Talybont

Estyniad blaen

**Caniatawyd, gydag amodau**

### **Ceisiadau Cynllunio:**

Dim wedi eu derbyn.

### **11. Materion Brys**

**Rhwystrau cyflymder Tal y Bont-** angen eu paentio gan eu bod yn anodd i'w gweld gyda'r nos.

**Bryn Eglwys, Llanllechid** -adroddwyd bod twll mawr yn y ffordd ger yr eglwys. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

**Arloesi Gwynedd Wledig-** adroddodd y Cyng. Geraint Hughes am beilot wi-fi. Y Cyngor yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r prosiect yma.